Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil y Cyfrifiad (Manylion Ffurflenni a Dileu Cosbau)

Mehefin 2019

## Y cefndir

### Y Bil

#### Crynodeb

**1.** Cafodd Bil y Cyfrifiad (Manylion Ffurflenni a Dileu Cosbau) ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 1 Mai 2019 ac fe'i noddir gan Swyddfa'r Cabinet.

**2.** Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn nodi fel a ganlyn:

> "The Census (Return Particulars and Removal of Penalties) Bill provides for voluntary questions on sexual orientation and gender identity to be asked in the England and Wales and Northern Ireland censuses. It does this by removing the criminal penalty for not responding to questions on these matters. It also clarifies the existing law that such questions may be asked. In the case of England and Wales only, this will lead to any such questions being subject to the draft negative Parliamentary procedure in future Census Orders."[1]

### Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

[1] Bil y Cyfrifiad (Manylion Ffurflenni a Dileu Cosbau): Nodiadau Esboniadol, Mai 2019

**3.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol oherwydd bod darpariaethau yn y Bil yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu'n dod o fewn ei gymhwysedd.

**4.** Ar 15 Mai 2019, gosododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad mewn perthynas â'r Bil.[2]

**5.** Ar 21 Mai 2019, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i'w drafod. Pennodd y Pwyllgor Busnes 27 Mehefin 2019 ar gyfer cyflwyno adroddiad.[3]

**6.** Mae paragraffau 7 i 9 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil sydd angen cydsyniad, sef Adran 1 ac Adran 3.[4]

**7.** Mae paragraffau 10 i 17 o'r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru pam mae cynnwys darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil yn briodol:[5]

# Ystyriaeth y Pwyllgor

**8.** Trafodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil yn ein cyfarfod ar 10 Mehefin 2019.[6]

## Ein barn ni

**9.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Bil yn darparu ar gyfer cynnwys cwestiynau gwirfoddol am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd mewn cyfrifiadau yn y dyfodol. Credwn ei fod yn gam pwysig ymlaen, ac rydym yn cefnogi'r polisi hwn.

**10.** Rydym yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru ynghylch pam, yn ei barn hi, mae gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil yn briodol, ac mae'n fodlon.

---

[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil y Cyfrifiad (Manylion Ffurflenni a Dileu Cosbau), Mai 2019

[3] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil y Cyfrifiad (Manylion Ffurflenni a Dileu Cosbau), Mai 2019

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil y Cyfrifiad (Manylion Ffurflenni a Dileu Cosbau), Mai 2019

[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil y Cyfrifiad (Manylion Ffurflenni a Dileu Cosbau), Mai 2019

[6] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 10 Mehefin 2019